
2019


# REVIEW OF THE YEAR

# GOLWG AR Y FLWYDDYN



RSAW

Architecture.com/wales



In 2019, Carolyn Merrifield relinquished her Presidency and I took up the role in September coinciding with us saying our sad farewells to our long-standing Director Mary. We welcomed our new Director Elinor Weekley in October, who has fitted into the RSAW team seamlessly.


In November we welcomed over 160 delegates to the 26th Annual Conference in Cornerstone, Cardiff with a diverse and creative line-up of guest speakers and presenters. The subject of sustainability seemed like an obvious choice, but it was great to listen to fresh ideas and innovative ways to strive toward a carbon neutral industry that our profession can sit within at ease.

Another year and another decade passes and with that comes new legislation and change creating new challenges. I'm sure you will join us in responding to our member questionnaire later this year to assist RSAW in making choices, responding to Welsh Government matters and consultations, issues prompting questions around SuDS and the 2030 Climate Challenge, to name a few.

2020 sees a continuing CPD programme, the Wales Festival of Architecture, Spring School and all the usual events hosted by the regions. Later this year we will start the process of electing a new President to take office in September 2021. I very much hope that we see several candidates for an exciting election that will strengthen RSAW's position within the RIBA and importantly support the branches in Wales.

**Best wishes for the coming year.**

# Welcome Croeso



**Ryan Stuckey,**
President/Llywydd RSAW
2019 - 2021

Yn 2019, daeth Llywyddiaeth Carolyn Merrifield i ben ac fe gamais i i'r swydd ym mis Medi, a ninnau'n ffarwelio ar yr un pryd â Mary a fu'n Gyfarwyddwr am gyfnod sylweddol. Croesawyd ein Cyfarwyddwr newydd, Elinor Weekley, ym mis Hydref ac mae hi wedi ennill ei phlwyf eisoes yn nhîm RSAW.

Ym mis Tachwedd, daeth cyfle i groesawu dros 160 o bobl i'r 26ain Gynhadledd Flynyddol yn Cornerstone, Caerdydd lle cafwyd cwmni cyflwynwyr a siaradwyr gwadd amrywiol a chreadigol. Efallai bod 'cynaliadwyedd' yn bwnc amlwg i'w ddewis ond roedd yn wych cael gwrando ar syniadau ffres a ffyrdd dyfeisgar o anelu at ddiwydiant carbon niwtral y bydd ein proffesiwn yn gyfforddus ag ef.

Gyda blwyddyn newydd a degawd newydd, daw deddfwriaeth newydd a newidiadau sy'n creu heriau newydd. Rwy'n siŵr y gwnewch chi gyfrannu trwy ymateb i'n holiadur i aelodau yn nes ymlaen eleni er mwyn helpu RSAW i wneud dewisiadau, a thrwy ymateb i ymgyngoriadau a materion a godir gan Lywodraeth Cymru, materion sy'n ennyn cwestiynau am Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) a Her Hinsawdd 2030, i enwi dim ond ychydig.

Yn 2020, bydd ein rhaglen DPP yn parhau, cynhelir Gŵyl Bensaernïaeth Cymru, yr Ysgol Wanwyn a digwyddiadau arferol y rhanbarthau. Yn nes ymlaen eleni, fe gychwynnwn y broses o ethol Llywydd newydd i ddechrau ar y gwaith ym mis Medi 2021. Gobeithio'n fawr y bydd sawl ymgeisydd fel y cawn etholiad cyffrous a fydd yn cryfhau sefyllfa RSAW yn RIBA ac, yn bwysig iawn, yn cefnogi'r canghennau yng Nghymru.

**Dymuniadau gorau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.**



In October 2019 I was welcomed into the RSAW by members and staff and I can't wait for 2020 and what's upon us.


I have taken pleasure in re-capping RSAW's activity during 2019 and its success, in this review.

Although I joined late on in the year I am fortunate to have been involved with the 26th Annual Conference in Wales which was a roaring success, the launch of the RSAW 2020 Awards, Five Presidents meeting which includes our President Ryan Stuckey and the other National Presidents at RIBA, RIAS, RIAI, RSUA, the launch of the Architectural Archives Advisory panel in Wales, and importantly getting out to meet the members of RSAW across Wales, which will continue into 2020 and beyond!

2020 brings opportunity to continue with our high profile series of CPD and conferences full of inspiration and professionalism, and to introduce new initiatives to ensure the 'Importance of Using an Architect', training and upskilling, forums enabling influence in our industry, student mentoring and student awards, bringing RSAW into a modern age of digitalisation through an online CPD offering and a long overdue upgrade to our systems.

**I welcome you to join us in our member survey, at an event or through an initiative that suits you!**

# Welcome Croeso



**Elinor Weekley,**
Director/Cyfarwyddwr RSAW

Ym mis Hydref 2019, cefais fy nghroesawu i RSAW gan yr aelodau a'r staff ac rwy'n methu aros i weld beth sydd gan 2020 i'w gynnig.

Bu'n bleser edrych yn ôl dros weithgareddau RSAW yn 2019 a'u llwyddiant. Dyma fy adolygiad.

Er ei bod yn hwyr yn y flwyddyn arnaf i'n ymuno, roeddwn yn ffodus o gael cymryd rhan yn y 26ain Gynhadledd Flynyddol yng Nghymru a fu'n llwyddiant mawr; yn lansio Gwobrau RSAW 2020; yng Nghyfarfod y Pum Llywydd a oedd yn cynnwys ein Llywydd ni, Ryan Stuckey, a'r Llywyddion Cenedlaethol eraill sef llywyddion RIBA, RIAS, RIAI a RSUA; yn lansio Panel Ymgynghorol Archifau Pensaernïol yng Nghymru; ac, yn bwysig iawn, yn mynd allan i gyfarfod ag aelodau RSAW ledled Cymru, rhywbeth a fydd yn parhau yn 2020 a'r tu hwnt!

Daw 2020 â chyfle i barhau â'n cyfres bwysig o DPP a chynadleddau llawn ysbrydoliaeth a phroffesiynoldeb, ac i gyflwyno cynlluniau newydd i sicrhau 'Pwysigrwydd Defnyddio Pensaer', hyfforddi ac uwchsgilio, fforymau i'n galluogi i ddylanwadu ar ein diwydiant, cynlluniau mentora myfyrwyr a gwobrau myfyrwyr, cyflwyno RSAW i'r oes ddigidol fodern trwy drefniadau DPP ar-lein a chynllun i uwchraddio ein systemau, o'r diwedd.

**Croeso i chi ymuno â ni yn ein harolwg o aelodau, neu i gymryd rhan mewn digwyddiad neu gynllun sy'n addas ar eich cyfer chi!**




Morgan Arcade, Cardiff / Arcêd Morgan, Caerdydd

## RSAW Background

Tracing its origins back to the late 19th century, the Royal Society of Architects in Wales (RSAW) was granted the Royal pre-fix in 1994 and represents and supports around 650 Chartered Members of our parent body, the Royal Institute of British Architects (RIBA), who live and work in Wales.

RSAW strives to be an authoritative information source able to represent the voice of the architectural profession in Wales, bringing influence to bear on Welsh Government and related agencies.

With a staff team based in Cardiff, the RSAW Council and members in four Branches, we promote the value of good design through awards schemes, exhibitions, festivals and conferences, regularly working in partnership with other professional bodies and Welsh national organisations. We connect with leading figures in the political and creative arenas through our Honorary Member programme.



RSAW 26th Annual Conference 2019 /
Cynhadledd Flyndyddol RSAW 2019 – y 26ain
Photo/Ffoto: Whole Picture

## What RSAW does

### Engaging members in the civic and political life of Wales

We work with partners to deliver high-profile, public-facing events such as the National Eisteddfod of Wales Gold Medal exhibition of architecture with Design Commission for Wales (DCFW).

### Welsh Government policy and influence

We respond to all Welsh Government consultation documents relating to the built environment; we engage with sector bodies and keep members informed through regular policy updates.

### Promotion of Architects

With exhibitions of each year's Award-winning buildings and through talks and tours in the Wales Festival of Architecture we promote the achievements of architects in Wales, from small scale to major projects.

We co-publish with the University of Wales Press *The Architecture of Wales* series, while *Touchstone* journal provides an annual update on new and projected developments in Wales.

### Maintenance of professional standards

Through the Wales Future Practice CPD programme and seminars linking with new legislation, members are able to keep knowledge and skills up-to-date. A new feature for 2019 was the inclusion of CPD opportunities offered by partner organisations including the Centre for Alternative Technology, The National Library of Wales and RTPI Cymru. In response to members' feedback, we launched a regular discussion and information–sharing forum for architects and planners across the North Wales area, following a successful session on development management in April 2019.

### Education

We work with Cardiff University (Welsh School of Architecture) and UWTSD (the new Swansea School of Architecture) and CAT (Centre for Alternative Technology) on various programmes and projects.



2019 Welsh Architecture Awards ceremony / Seremoni Gwobrau Pensaernïaeth Cymru 2019. Photo / Ffoto: Glenn Edwards photojournalist

## Cefndir RSAW

Mae gwreiddiau Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW) yn dyddio yn ôl i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond yn 1994 yr ychwanegwyd y gair "Brenhinol" at y teitl. Mae'n cynrychioli ac yn cefnogi tua 650 o Aelodau Siartredig o'n rhiant gorff, Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Mae RSAW yn ymdrechu i fod yn ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth a all gynrychioli llais y proffesiwn pensaernïol yng Nghymru, gan ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru ac asiantaethau cysylltiedig.

Mae gennym dîm o staff yng Nghaerdydd, Cyngor RSAW ac aelodau mewn pedair Cangen ac rydym yn hyrwyddo gwerth dylunio da trwy gynlluniau gwobrau, arddangosfeydd, gwyliau a chynadleddau, gan gydweithio'n rheolaidd â chyrff proffesiynol eraill a sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru. Rydym yn ymwneud â ffigurau blaenllaw yn y meysydd gwleidyddol a chreadigol trwy ein rhaglen Aelodau er Anrhydedd.



Silver How, Hall + Bednarczyk Architects. Photo/Ffoto: Simon Maxwell

## Beth y mae RSAW yn ei wneud

**Cynnwys aelodau ym mywyd dinesig a gwleidyddol Cymru**
Rydym yn cydweithio â phartneriaid ar ddigwyddiadau mawr cyhoeddus e.e. Medal Aur Pensaernïaeth yn arddangosfa Celf a Chrefft yr Eisteddfod Genedlaethol gyda Chomisiwn Dylunio Cymru.

**Polisi a dylanwad Llywodraeth Cymru**
Rydym yn ymateb i holl ddogfennau ymgynghori Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig; rydym yn ymwneud â chyrff y sector ac yn cadw mewn cysylltiad â'n haelodau trwy newyddion rheolaidd am bolisi.

**Hyrwyddo Penseiri**
Rydym yn tynnu sylw at yr hyn y mae penseiri'n ei gyflawni yng Nghymru, yn brosiectau bach a mawr, trwy gynnal arddangosfeydd bob blwyddyn o adeiladau sydd wedi ennill gwobrau a thrwy sgyrsiau a theithiau yng Ngŵyl Bensaernïaeth Cymru.

Rydym ni a Gwasg Prifysgol Cymru yn cydgyhoeddi cyfres *The Architecture of Wales* ac mae cylchgrawn *Touchstone* yn cyhoeddi newyddion am brosiectau newydd ac arfaethedig yng Nghymru bob blwyddyn.

**Cynnal safonau proffesiynol**
Trwy raglen DPP Practisiau Dyfodol Cymru a seminarau'n ymwneud â deddfwriaeth newydd, gall aelodau ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau. Un elfen newydd yn 2019 oedd cynnwys cyfleoedd DPP a gynigiwyd gan ein partneriaid, yn cynnwys Canolfan y Dechnoleg Amgen, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac RTPI Cymru. Mewn ymateb i adborth gan yr aelodau, lansiwyd fforwm rheolaidd lle gall penseiri a chynllunwyr ledled gogledd Cymru drafod a rhannu gwybodaeth, yn dilyn sesiwn lwyddiannus ar reoli datblygiadau yn Ebrill 2019.

**Addysg**
Rydym yn cydweithio â Phrifysgol Caerdydd (Ysgol Bensaernïaeth Cymru), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Ysgol Bensaernïaeth newydd Abertawe) a CAT (Canolfan y Dechnoleg Amgen) ar wahanol raglenni a phrosiectau.

1



2



3



4



5



6





8



9



# 2019

7




| | |
|---|---|
| 1 | We say farewell to Mary Wrenn<br>*Cyfle i ffarwelio â Mary Wrenn* |
| 2 | RSAW 26th Annual Conference 2019<br>*Cynhadledd Flynyddol RSAW 2019 – y 26ain*<br>Photo/*Ffoto:* Whole Picture |
| 3 | Be an Architect for the day<br>*Byddwch yn Bensaer am Ddiwrnod* |
| 4 | Ysgol Trimsaran, Architype<br>Photo/*Ffoto:* Phil Boorman |
| 5 | RSAW 26th Annual Conference 2019<br>*Cynhadledd Flynyddol RSAW 2019 – y 26ain*<br>Photo/*Ffoto:* Whole Picture |
| 6 | Menai Science Park/*M-Sparc,*<br>FaulknerBrowns Architects<br>Photo/*Ffoto:* Richard Chivers |
| 7 | Inter-professional Great Debate/<br>*Y Drafodaeth Fawr Ryngbroffesiynol* |
| 8 | Galeri Caernarfon, Richard Murphy Architects<br>Photo/*Ffoto:* Andy Marshall |
| 9 | RSAW 26th Annual Conference 2019<br>*Cynhadledd Flynyddol RSAW 2019 – y 26ain*<br>Photo/*Ffoto:* Whole Picture |



Lochside House, HaysomWardMiller Architects

# Events

## 2019 RSAW Annual Conference

The 26th RSAW Annual Conference took place at Cornerstone, Cardiff. Over 160 delegates from across Wales joined speakers and contributors from across the UK to consider the role of architects in a changing climate.

The IPCC's report in 2018 that warned that there only 12 years for global warming to be kept to a maximum of 1.5°C above pre-industrial levels confirmed to many that the climate emergency is the biggest challenge facing the world today. And, with the built environment contributing to around 40% of all UK $CO_2$ emissions, it's clear that architects have an opportunity to greatly assist in reducing greenhouse gas emissions to net zero by 2050.

Following introductions by RSAW President, Ryan Stuckey and Conference Chair Chris Jofeh, delegates received an update on the ongoing work of The Future Generations Commissioner for Wales from Marie Brousseau-Navarro, heard details of RIBA's 2030 Climate Challenge, reviewed the Welsh Government's policies and actions on built environment emissions, considered the role of schools of architecture in educating architects of the future with the changing climate in mind. Sero Homes and Loyn + Co shared details of their Parc Hadau scheme in Neath Port Talbot which is set to be one of the world's first net zero carbon neighbourhoods. Architype and Carmarthenshire County Council reviewed two award-winning schools completed for the local authority to highlight the importance of a willing client in achieving high performing buildings. Will Hurst from Architects' Journal outlined the publication's RetroFirst campaign which highlights the importance of improving performance of existing building stock and Robert Prewett of Prewett Bizley Architects shared his experiences of how best to incorporate principles of retrofit into practice.

As is customary for the Annual Conference, the final lecture of the day was the Inspiration Hour, this year with Peter Clegg of Feilden Clegg Bradley Studios. Taking delegates on a whistle-stop tour of the practice's work, Peter showed that sustainable design has been a running thread through all of their schemes over the last 40 years.

## 2019 Summer School

On 05 July, around 70 members and guests gathered at Portmeirion for the 2019 'Summer School'.

The theme, At home in Europe – an international perspective on the Welsh placemaking agenda, explored two fundamental areas of architectural and social engagement: housing and placemaking. In Wales, the Wellbeing of Future Generations Act positions placemaking at its heart, so to achieve these ambitious goals, RSAW looked to friends and neighbours beyond Wales to share experiences and learn from their research and practice. With this in mind, the programme featured speakers from London, Paris and Vienna.

Atelier du Pont showed examples of their social housing projects in Paris and Rennes, while James Turner of Mikhail Riches gave an overview of the UK's largest Passivhaus development at Goldsmith Street, Norwich (which later went on to win the 2019 RIBA Stirling Prize). The traditional 'Inspiration Hour' was a stimulating and rewarding end to an intensive day, presented by Haysom Ward Miller, winners of the 2018 RIBA House of the Year award for Lochside House.

**"A highly engaging, relevant and challenging conference. Excellent job!"**

# Digwyddiadau

## Cynhadledd Flynyddol RSAW 2019

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol RSAW – y 26ain – yn Cornerstone, Caerdydd. Ymunodd dros 160 o gynadleddwyr o bob rhan o Gymru â siaradwyr a chyfranwyr o wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig i ystyried swyddogaeth penseiri mewn hinsawdd sy'n newid.

Yn 2018, rhybuddiodd adroddiad yr IPCC mai dim ond 12 mlynedd sydd ar ôl i gadw cynhesu byd-eang i ddim mwy nag 1.5°C uwchlaw lefelau'r cyfnod cyn-ddiwydiannol. Roedd hyn yn cadarnhau i lawer mai'r argyfwng hinsawdd yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw. A, gan mai'r amgylchedd adeiledig sy'n gyfrifol am tua 40% o holl allyriadau $CO_2$ y Deyrnas Unedig, mae'n amlwg fod gan benseiri gyfle i helpu'n fawr i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero-net erbyn 2050.

Ar ôl i Lywydd RSAW, Ryan Stuckey, a Chadeirydd y Gynhadledd, Chris Jofeh, gyflwyno pobl, bu cyfle i wrando ar Marie Brousseau-Navarro yn sôn am waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru; i glywed manylion Her Hinsawdd 2030 RIBA; i adolygu polisïau a gwaith Llywodraeth Cymru ar allyriadau'r amgylchedd adeiledig; ac i ystyried swyddogaeth ysgolion pensaernïaeth yn addysgu penseiri'r dyfodol gyda golwg ar newid yn yr hinsawdd. Bu Sero Homes a Loyn + Co yn rhannu manylion eu cynllun Parc Hadau yng Nghastell-nedd Port Talbot sydd â'r nod o fod yn un o gymdogaethau di-garbon net cyntaf y byd. Bu Architype a Chyngor Sir Gaerfyrddin yn bwrw golwg ar ddwy ysgol arobryn a godwyd ar gyfer yr awdurdod lleol er mwyn dangos pwysigrwydd cleient ewyllysgar ar gyfer sicrhau adeiladau effeithiol. Bu Will Hurst o'r *Architects Journal* yn amlinellu ymgyrch y cyhoeddiad RetroFirst sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd gwella perfformiad adeiladau presennol a bu Robert Prewett o Prewett Bizley Architects yn rhannu ei brofiadau o'r ffordd orau o roi egwyddorion ôl-ffitio ar waith.

Fel sy'n arferol yn y Gynhadledd Flynyddol, yr Awr Ysbrydoliaeth oedd darlith olaf y dydd, gyda Peter Clegg o Feilden Clegg Bradley Studios eleni. Aeth Peter â'r cynadleddwyr ar daith wib o gwmpas gwaith y practis gan ddangos bod dylunio cynaliadwy'n rhedeg fel llinyn arian trwy eu holl gynlluniau dros y 40 mlynedd ddiwethaf.

Tŷ Pawb, Featherstone Young. Photo/Ffoto: James Morris



**"Cynhadledd ddifyr iawn, berthnasol a heriol. Gwaith gwych!"**

## Ysgol Haf 2019

Ar 5 Gorffennaf, ymgasglodd tua 70 o aelodau a gwesteion ym Mhortmeirion ar gyfer 'Ysgol Haf' 2019.

Roedd y thema, *Cartrefol yn Ewrop... golwg ryngwladol ar agenda 'creu lleoedd' Cymru*, yn trafod dwy elfen sylfaenol ym maes ymgysylltu pensaernïol a chymdeithasol: tai a chreu lleoedd. Yng Nghymru, mae creu lleoedd yn cael lle canolog yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, er mwyn ein helpu i gyrraedd y nodau uchelgeisiol hyn, gofynnodd RSAW i ffrindiau a chymdogion o wledydd eraill rannu eu profiadau fel y gallem ddysgu o'u hymchwil a'u gwaith nhw. Roedd siaradwyr o Lundain, Paris a Vienna yn rhan o'r rhaglen.

Dangosodd Atelier du Pont enghreifftiau o'u prosiectau tai cymdeithasol ym Mharis a Roazhon, ac fe gyflwynodd James Turner o Mikhail Riches drosolwg o ddatblygiad Passivhaus mwyaf Prydain yn Stryd Goldsmith, Norwich (a aeth ymlaen i ennill Gwobr Stirling RIBA 2019). Cawsom hwb a boddhad yn yr 'Awr Ysbrydoliaeth' draddodiadol ar ddiwedd diwrnod llawn. Fe'i cyflwynwyd gan Haysom Ward Miller, enillwyr gwobr Tŷ y Flwyddyn RIBA 2018 am Lochside House.

# 86%

86% of registered architects in Wales are RSAW (RIBA) members, an increase of 4% over the last 12 months

Mae 86% o benseiri cofrestredig Cymru yn aelodau o RSAW (RIBA), cynnydd o 4% dros y 12 mis diwethaf

# 650

Chartered Members in Wales

Aelodau Siartredig yng Nghymru

# 26

The RSAW Annual Conference celebrated 26 years on 26th November 2019

Roedd Cynhadledd Flynyddol RSAW yn dathlu 26 mlynedd ar 26 Tachwedd 2019

# 7

The 7th Wales Festival of Architecture offered 5 exhibitions, 5 talks, 4 films, 5 Design workshops

Yn 7fed Gŵyl Bensaernïaeth Cymru, roedd 5 arddangosfa, 5 sgwrs, 4 ffilm, 5 gweithdy dylunio

# 1,371

Number of recorded attendances for RSAW events held in 26 locations across Wales in 2019

Nifer y bobl y cofnodwyd iddynt fod yn nigwyddiadau RSAW mewn 26 o ganolfannau ledled Cymru yn 2019

# 6

Welsh Architecture Award winners in 2019

Enillwyr Gwobrau Pensaernïaeth Cymru yn 2019

**Attendees of Summer School/Pobl a fu yn yr Ysgol Haf 2019**

"An extraordinary day, so powerful"

"Diwrnod rhagorol, mor rymus"

"It was an amazing day, felt very lucky to be there"

"Roedd yn ddiwrnod gwych, ro'n i'n teimlo mor lwcus 'mod i yno"

"We thoroughly enjoyed it and took so much from it"

"Roedden ni wrth ein bodd ac fe wnaethon ni elwa gymaint"

**Attendees of Conference/Pobl fu yng Nghynhadledd 2019**


"Really well organised and an enjoyable and informative day. Great to see lots of students."

"Wedi'i drefnu'n dda iawn ac yn ddiwrnod difyr a llawn gwybodaeth. Braf gweld llawer o fyfyrwyr."

"This year's conference certainly asked more questions of the practice of architecture."

"Yn ddi-os, fe wnaeth y gynhadledd eleni godi mwy o gwestiynau am ymarfer pensaernïaeth."

# RIBA 2030 CLIMATE CHALLENGE



Sign up to take the RIBA
2030 Climate Challenge at
www.architecture.com/2030challenge

RIBA
Architecture.com



Gweithdy, St Fagans/*Sain Ffagan*,
Feilden Clegg Bradley Studios
Photo/*Ffoto:* Craig Auckland

# 2019

# REVIEW OF THE YEAR

# GOLWG AR Y FLWYDDYN

**RSAW team / Tîm RSAW**

Honorary Officers/Swyddogion Mygedol:
President/Llywydd: **Ryan Stuckey**;
Immediate Past President/Cyn-Lywydd Diwethaf: **Carolyn Merrifield**;
Honorary Secretary/Ysgrifennydd Mygedol: **Geraint Roberts**;
Honorary Treasurer/Trysorydd Mygedol: **Andy Sutton**;
Branch Chairs/Cadeiryddion y Canghennau:
**Gavin Orton, Derwyn Owen, David Thomas, Gavin Traylor**.

**Staff:**
**Elinor Weekley**, Director/Cyfarwyddwr;
**Thomas Webb**, Projects and Policy Coordinator/
Cydlynydd Prosiectau a Pholisi;
**Bethan Proctor**, CPD and Events Coordinator/
Cydlynydd DPP a Digwyddiadau

*We would like to thank Mary Wrenn who left RSAW in August 2019, for her outstanding contribution to RSAW over many years and wish her well for the future.*

*Hoffem ddiolch i Mary Wrenn, a adawodd RSAW ym mis Awst 2019, am ei chyfraniad eithriadol i RSAW dros lawer o flynyddoedd a dymuno'n dda iddi at y dyfodol.*

Design/Dylunio:
www.theundercard.co.uk

The RSAW is the Royal Institute of British Architects in Wales

RSAW yw Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain yng Nghymru

RSAW
Architecture.com/wales

Studio 111
The Creative Quarter
Morgan Arcade/Arcêd Morgan
Cardiff/Caerdydd
CF10 1AF
www.architecture.com/wales
029 2022 8987